**CYD-BWYLLGOR GWE – 05/10/22**

**Yn bresennol:**

**Y Cynghorwyr:** Julie Fallon (Cadeirydd) (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Ieuan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Phil Wynn (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Beca Brown (Cyngor Gwynedd).

**Swyddogion Heb bleidlais:** Dr Lowri Brown (Cyngor Sir Bwrdeistref Conwy), Marc Berw Hughes (Cyngor Sir Ynys Môn), Geraint Davies (Cyngor Sir Ddinbych), Dafydd Ifans (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) ac Owen Owens (Cyngor Gwynedd).

**Swyddogion yn bresennol:**

**GwE –** Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr) a Bethan Roberts (Rheolwr Rheoli Perfformiad).

**Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol -** Siôn Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau), Hywyn Lewis Jones (Cyfrifydd Grŵp), Gwion Ellis Jones (Uwch Gyfrifydd) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:**
Ruth Thackray: Uwch Arweinydd – Cwricwlwm i Gymru

**Yn bresennol ar gyfer eitem 8:**
Elfyn Jones: Arweinydd Rhanbarthol Uwchradd GwE

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan yr Is-Gadeirydd Gill German (Cyngor Sir Ddinbych), Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE), Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych), Garem Jackson (Cyngor Gwynedd), Karen Evans (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Claire Homard (Cyngor Sir y Fflint) a Claire Armitstead (Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4. COFNODION

Cadarnhawyd fod y cofnod a gyflwynwyd o’r cyfarfod ar y 13eg o Orffennaf, 2022 yn gywir.

## 5. CYLLIDEB GwE 2022/2023 – MONITRO CHWARTER 1

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Gyfrifydd Grŵp yr Awdurdod Lletyol a nodwyd y prif bwyntiau isod:

- Adroddwyd bod adolygiad cychwynnol o'r gyllideb yn rhagweld tanwariant net o £116,306.00 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol (2022/23).
- Esboniwyd bod salwch a throsiant staff, secondiadau a chyfnodau mamolaeth yn ogystal â thrafferthion recriwtio wedi cyfrannu tuag at y tanwariant hwn.
- Eglurwyd bod nifer o ymweliadau a chyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithiol erbyn hyn ac felly mae GwE yn gwario llai o arian ar gludiant nag y disgwyliwyd.
- Cadarnhawyd bod cronfa cyllideb GwE yn £437,503.00 ar gychwyn y flwyddyn ariannol bresennol (2022/23) ac amcangyfrifwyd y bydd cronfa cyllideb GwE yn £553,808.00 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol (2022/23).

**PENDERFYNWYD**

- Derbyn a chymeradwyo'r Adroddiad ar gyfer monitro Cyllideb GwE -Chwarter 1 2022-2023.

## 6. CYNLLUN BUSNES GWE 2022-2023 – ADRODDIAD MONITRO CHWARTER 1

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr Gyfarwyddwr GwE a nodwyd y prif bwyntiau isod:

- Eglurwyd bod GwE wedi datblygu 31 o gynlluniau busnes sy'n efelychu'r blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol.
- Pwysleisiwyd bod Chwarter 1 wedi cael eu dreulio yn datblygu'r cynlluniau busnes er mwyn iddynt fod yn weithredol hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol (2022/23).
- Adroddir ar gynnydd yn chwarterol i'r Awdurdodau Lleol ar y blaenoriaethau rhanbarthol gan hefyd rhoi trosolwg awdurdod lleol penodol.

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â meysydd gwelliant rhanbarthol GwE, nododd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE:

- Bod ysgolion wedi bod yn canolbwyntio yn fawr ar barhau i ddarparu addysg o'r safon gorau posibl drwy gydol pandemig Covid-19. Cadarnhaodd eu bod yn parhau i wneud hynny drwy sicrhau eu bod yn diogelu iechyd disgyblion a staff. Oherwydd bod y bygythiad o'r salwch yn parhau i fod yn bresennol, mae ysgolion angen amser i fagu hyder bod effaith Covid-19 am fod yn is yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD**

- Cymeradwyo'r adroddiad ar gyfer monitro chwarter 1 - Cynllun Busnes GwE 2022-2023.

## 7. Y DAITH DDIWYGIO: ADRODDIAD CYNNYDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Uwch Arweinydd – Cwricwlwm i Gymru a nodwyd y prif bwyntiau isod:

- Soniwyd bod cynnwys yr adroddiad yn edrych yn ôl dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn datgan sut roedd ysgolion cynradd ac uwchradd yn paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd a ddaeth i rym ym mis Medi 2022. Nodwyd bod yr adroddiad yn rhoi sylw penodol i dymor yr haf cyn i'r cwricwlwm ddod i rym.

- Eglurwyd bod Llywodraeth Cymru wedi rhannu 6 cam er mwyn paratoi at y newid hwn i'r cwricwlwm a nodwyd bod ysgolion yn ymdopi yn dda gyda'r camau hynny.

- Ychwanegwyd bod adborth gan arweinwyr ysgolion yn cadarnhau bod angen cymryd camau ychwanegol er mwyn cyrraedd y targedau hyn yn enwedig wrth gysidro rôl cynnydd, asesu ac addysgeg yn y cyd-destun lleol.

- Mynegwyd bod ysgolion cynradd wedi ymgysylltu'n dda wrth baratoi at y cwricwlwm newydd a'u bod wedi cael eu cefnogi gan Gwricwlwm i Gymru drwy gyfresi o weithdai, webinarau a modelau.

- Esboniwyd bod gwaith yn cael ei wneud gyda ysgolion uwchradd eleni i ffocysu ar ddisgyblion oedd yn symud i flwyddyn 7, ac flwyddyn nesaf bydd y gwaith yn ffocysu ar flwyddyn 7 ac 8.

- Cadarnhawyd fod ysgolion uwchradd yn edrych ar hunaniaeth leol er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm yn cael ei fewnosod drwy ddulliau addas.

- Pwysleisiwyd fod addysgeg a hunanasesiadau yn newid o ysgol i ysgol a bod strategaethau yn cael eu datblygu'n rheolaidd.. Mae cymorth yn cael ei ddarparu i annog llesiant i bawb ac anogir i ysgolion gydweithio er mwyn creu rhwydwaith o staff sy'n gallu cefnogi ei gilydd drwy'r daith diwygio hwn.

Ymhelaethodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE ar y pwyntiau hyn gan nodi'r prif bwyntiau isod:

- Mynegwyd dyhead i gyflwyno diweddariad o'r cwricwlwm i aelodau newydd yr awdurdodau lleol yn dilyn etholiad fis Mai 2022, neu i holl aelodaeth y cynghorau lleol er mwyn eu diweddaru ar ddatblygiadau'r cwricwlwm.

    - Mewn ymateb i'r sylw yma, nododd y Cadeirydd efallai byddai cynnal diweddariad ar lein yn opsiwn er mwyn diweddaru llawer o aelodau ar yr un adeg.

- Cyfeiriwyd at ofynion mesur cynnydd ac atebolrwydd ysgolion gan Reolwr Gyfarwyddwr GwE. Nodwyd bod strwythur, siâp a chyfeiriad y cwricwlwm yn anodd ei bennu, ac felly mae ysgolion angen amser i fagu hyder ar y dull gorau i'w ymgorffori gan fanteisio ar yr agweddau sydd fwyaf perthnasol iddynt. Ychwanegwyd y byddai pontio a chydweithio naturiol yn digwydd drwy anghenion lleol, daearyddol a phrofiadau dysgu wrth i amser fynd yn ei flaen.

Mewn ymateb i ymholiad am yr amserlen o ran pryd bydd y dulliau asesu'n ddigon aeddfed i allu dehongli os ydi'r dulliau addysgu hyn yn fyw llwyddiannus na'r dulliau blaenorol, nododd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE:

- Mi fydd yn beth amser i allu cymharu hyn. Aethpwyd ymlaen i egluro bod hyn yn bennaf oherwydd bod y systemau newydd yn edrych ar lesiant, profiadau dysgu a'r profiadau yn erbyn y pedwar diben. Eglurwyd bod angen cael trafodaethau manwl yn y dyfodol er mwyn ceisio mabwysiadu dull teg o asesu gan gofio fod y cwricwlwm yn ddull lleol ei natur a bod agweddau gwahanol yn effeithio ar leoliadau gwahanol o fewn yr amrywiol awdurdodau lleol. Eglurwyd hefyd y byddai angen cyngor ac arweiniad gwleidyddol ynglŷn â'r mater hwn.

**PENDERFYNWYD**

- Nodi a derbyn yr adroddiad sy'n amlygu paratoadau ysgolion i fabwysiadu Cwricwlwm i Gymru yn sgil agenda adnewyddu a diwygio.

**8. RHAGLEN WAITH GwE YN YSTOD TYMOR YR HYDREF A'R GWANWYN 2022 - 2023**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Arweinydd Rhanbarthol Uwchradd GwE a nodwyd y prif bwyntiau isod:

- Eglurwyd bod y cydbwyllgor eisoes yn ymwybodol o ddisgwyliadau a gofynion y canllawiau gwella ysgolion cenedlaethol newydd. Atgoffwyd bod GwE, y Llywodraethwyr ac Aelodau Lleol yn gyfrifol am ddal y gyfundrefn yn atebol ar y lefel lleol a bod Estyn yn rhannu'r un cyfrifoldebau yn rhanbarthol a chenedlaethol.

- Nodwyd bod yr adroddiad hwn yn amlygu'r rhaglen waith ar gyfer y tymor hwn yn ogystal â'r tymhorau sy'n dilyn er mwyn cefnogi pob ysgol i ymateb i ofynion y fframwaith newydd.

- Cadarnhawyd bod yr adroddiad wedi cael ei gymeradwyo gan Fwrdd Rheoli GwE ac ymgynghorwyd â Phenaethiaid rhanbarthol mewn Fforymau Strategol ac yng Nghynhadledd GwE i uwch arweinwyr yn Venue Cymru ar 22 a 23 Medi 2022.

- Rhoddwyd sylw manwl i'r canllawiau newydd ar gyfer gwella ysgolion gan nodi'r pwyntiau canlynol:

  - Disgwylir i ysgolion feddu ar brosesau hunan-arfarnu a hunanwerthuso cadarn yn ogystal â'r mecanwaith ar gyfer gwella. Disgwylir hefyd bod gan ysgolion brosesau ar gyfer cynllunio a chynnal gwelliannau.

  - Eglurwyd nad yw ysgolion ar eu pen eu hunain gyda hyn gan y bydd yr awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol yn sicrhau fod ganddynt gynhaliaeth er mwyn cynnal gwelliannau.

  - Esboniwyd mai un o brif ddyletswyddau ALI, GwE ac Estyn ydi gwerthuso'r gweithdrefnau hyn a'u gwella yn effeithiol. Golyga hyn fod yn rhaid cael system atebolrwydd clir er mwyn i bawb wybod beth sydd angen ei weithredu a pha ymyrraeth ychwanegol sydd ei angen.

  - Pwysleisiwyd bod gweithdrefnau arfarnu a gwelliannau wedi newid dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn sgil y pandemig ac o'r herwydd nid yw'r rhaglen waith mor syml ag y mae'n edrych ar yr olwg gyntaf. Deilliai hyn o'r ffaith fod ysgolion wedi wynebu heriau dwys iawn i sicrhau fod plant y rhanbarth yn parhau i dderbyn addysg o safon, yn saff. Golyga hyn fod addysgu o safon uchel, llesiant ac iechyd a diogelwch wedi bod yn flaenoriaeth dros y ddwy flynedd diwethaf yn hytrach na diweddaru fframweithiau arfarnu.

  - Rhannwyd diolchiadau penaethiaid rhai ysgolion y rhanbarth am safiad y Cyd-bwyllgor, sydd wedi helpu i sicrhau mai asesiadau yr athrawon oedd yn asesu cyflawniad y disgyblion o fewn y cyfnod hwn, gan ei bod wedi gweithredu fel system effeithiol iawn drwy gyfnod ansicr.

- Nodwyd bod Estyn bellach wedi cychwyn ail-ymweld ag ysgolion i gynnal arolygiadau, a nodwyd y prif bwyntiau isod:

  - Nad ydi fframweithiau arolygu Estyn wedi cael eu diwygio llawer ers cyn argyfwng Covid-19.
  - Eglurwyd bod ysgolion dal yn ymdopi gyda phroblemau ychwanegol sy'n deillio o'r pandemig megis presenoldeb, lles, trosiant staff a cholled sgiliau sylfaenol.

- Er mwyn cefnogi ysgolion ar eu taith wella bydd pob ysgol yn derbyn cynllun cymorth unigryw fydd yn amlygu y gefnogaeth fwyaf priodol ar eu cyfer.

Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Cydbwyllgor i rannu sylwadau a holi cwestiynau:

- Cytunwyd bod angen cydnabod yr heriau newydd sy'n deillio o'r pandemig. Cydnabuwyd bod angen i arolygiadau edrych ar ysgolion yn unigol. Pwysleisiwyd bod arolygiadau, yn gyffredinol, yn rhan allweddol o sicrhau bod disgyblion yn derbyn addysg o'r radd flaenaf.

- Nodwyd bod ysgolion hefyd yn delio gyda heriau newydd fel llesiant staff a disgyblion yn ogystal â materion fel y cynnydd mewn costau byw. Rhaid cofio bod ysgolion wedi tyfu i fod yn hybiau cymunedol mewn sawl ardal a bod maes addysg yng nghanol cyfnod digynsail.

- Cynigwyd y byddai'n ddefnyddiol i gynnig hyfforddiant i lywodraethwyr er mwyn sicrhau eu bod yn deall y Fframwaith Gwella Ysgolion newydd.

- Soniwyd y byddai'n ddefnyddiol derbyn mewnbwn gan Weinidog Addysg Llywodraeth Cymru ar y materion hyn gan fod cryn amser cyn gellir mesur llwyddiant y gweithdrefnau newydd a bod llesiant staff a disgyblion ar lefelau pryderus iawn ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD**

- Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad sy'n amlinellu prif ffocws Rhaglen Waith GwE yn ystod Tymor yr Hydref a'r Gwanwyn 2022-23.

- Ysgrifennu at Weinidog Addysg Llywodraeth Cymru er mwyn derbyn mewnbwn.

- Trefnu cyfarfod gydag Estyn er mwyn trafod y materion hyn ymhellach.

## 9. CYNHADLEDD RANBARTHOL TYMOR YR HYDREF GwE

Cyflwynwyd yr adroddiad er gwybodaeth i'r Aelodau gan Reolwr Gyfarwyddwr GwE a nodwyd y prif bwyntiau isod:

- Cafwyd ymateb rhagorol i'r gynhadledd, gyda thua 500 o bobl yn mynychu dros y ddau ddiwrnod. Dyma'r gynhadledd gyntaf i GwE ei gynnal yn dilyn y cyfnodau clo.

- Rhoddwyd crynodeb o gynnwys y gynhadledd i gynnwys:

  - Sgwrs gan Dafydd Iwan i annog miliwn o siaradwyr Cymraeg.
  - Gweithdai ymarferol.
  - Sesiynau holi ac ateb.
  - Cyflwyniad gan yr Athro Graham Donaldson.
  - Ychwanegwyd bod pwyslais mawr wedi ei roi ar lesiant unigolion, arweinwyr a staff yn ogystal â'r proses addysgu ôl-Covid drwy gydol y gynhadledd.

Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Cydbwyllgor i rannu sylwadau a holi cwestiynau:

- Mynegwyd diolchiadau i'r tîm busnes oedd wedi gwneud yr holl drefniadau i gynnal y gynhadledd ac eiliwyd bod yr adborth sy'n cyrraedd yr Aelodau yn gadarnhaol iawn.

- Gofynnwyd os oedd modd rhannu recordiad o araith yr Athro Graham Donaldson i'w rannu gyda'r Aelodau a phobl eraill nad oedd yn gallu bod yn bresennol, oherwydd yr adborth cadarnhaol.

Mewn ymateb i'r ymholiad am araith yr Athro Donaldson, nododd Reolwr Gyfarwyddwr GwE y gall GwE gysylltu ag o i weld os yw hyn yn bosib.

**PENDERFYNWYD**

- Derbyn a nodi'r adroddiad ar gynhadledd ranbarthol GwE.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30yb a daeth i ben am 11:50yb.

______________________________

**CADEIRYDD**